# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 121(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau ar ran Prif Weinidog Cymru.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE), 22 Chwefror 2018

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Cyd-Hysbysiad (Saesneg yn unig)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Papur Gwyn ar Wasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Papur Gwyn Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Cyrhaeddiad Uchel – Cefnogi ein Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Mapiau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol

(45 munud)

## 7 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y diweddaraf am Ymchwiliad y DU i Waed Heintiedig – Gohiriwyd tan 13 Mawrth

(0 munud)

## 8 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd: Ailgylchu yng Nghymru

(45 munud)

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau)

(15 munud)

**NDM6662 Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Bill documents — Assaults on Emergency Workers (Offences) Bill 2017-19 - UK Parliament (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Chwefror 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22/02/2018 i'w hateb ar 27/02/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

1 OAQ51826

A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau ar ôl cyrraedd pa gost y bydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar ddewisiadau amgen i gynlluniau arfaethedig presennol ar gyfer ffordd liniaru'r M4?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OAQ51827

Pa neges allweddol y mae Prif Weinidog wedi cymryd wrth yr arolwg Cadw'n Iach yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

3 OAQ51822

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chlybiau ysgol bwyd a hwyl yr haf hwn?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

4 OAQ51811

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau’r defnydd o blastig yng Nghymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ51825

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i fonitro categorïau ymateb y gwasanaethau ambiwlans?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

6 OAQ51792

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng ngogledd Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7 OAQ51790

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu faint o arian y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i Mudiad Meithrin yn y flwyddyn ariannol 2018/19?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8 OAQ51805

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar Islwyn?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**9** OAQ51799

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gweithdrefnau a ddilynir gan barafeddygon wrth ymateb i achosion o ataliad ar y galon?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

**10** OAQ51828

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfraddau diweithdra yng Nghymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

**11** OAQ51820

A wnaiff y Prif Weinidog adlewyrchu anghenion ffermwyr mewn gwledydd sy'n datblygu mewn sylwadau a wneir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o drafodaethau Brexit?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**12** OAQ51795

Pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cyflwyno yn 2018 i leihau amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru?

**Hefin David** *Caerffili*

**13** OAQ51824

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni blaenoriaeth un cynllun cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**14** OAQ51819

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau adrefnu llywodraeth leol Llywodraeth Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**15** OAQ51808

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gwella ffyrdd Llywodraeth Cymru yng Nghasnewydd a'r cyffiniau?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 6 Mawrth 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwerthfawrogi Gweithlu'r GIG (45 munud)
- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (45 munud)
- Rheoliadau Gorfodaeth Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2018 (15 munud)
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2018 (15 munud)
- Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2017-18 (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2016-17 (60 munud)
- Cynnig i drafod yr eitemau a ganlyn gyda’i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (60 munud):
    - Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 fod Bil a elwir yn Fil Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru) yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth;
    - Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil a elwir yn Fil Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

**Dydd Mercher 7 Mawrth 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Urddas a Pharch yn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ynghylch y ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yn Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Mawrth 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd: Tirweddau Dynodedig (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y diweddaraf am ymchwiliad y DU i waed heintiedig (45 munud)
- Dadl ynghylch egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 14 Mawrth 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ynghylch adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)
- Dadl Fer – Vikki Howells (Cwm Cynon) (30 munud)

**Dydd Mawrth 20 Mawrth 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi: Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018 (15 munud)

**Dydd Mercher 21 Mawrth 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Rhianon Passmore (Islwyn) (30 munud)